Nodiadau Cyfarwyddyd

ar gyfer cwblhau

Hunanwerthusiad

y Cynllun AGChY

Diweddariad Ebrill 2009
Diben

Diben y ddogfen hon yw helpu ysgolion i gwblhau eu Hunawerthusiad blynyddol dan y cynllun AGChY. Mae'n ystyried pob cwestiwn allweddol yn fframwaith arolygu Estyn a'i gwestiynau hunanwerthuso cysylltiedig ar gyfer y cynllun AGChY yn fanwl. Drwy ateb cwestiynau hunanwerthusiad y cynllun AGChY, gobeithir y bydd ysgolion yn gallu datgan y cryfderau a'r meysydd ar gyfer eu datblygu yn eu darpariaeth addysg gorfforol yn eu hysgolion. O edrych ar yr wybodaeth hon, gall ysgolion sefydlu blaenoriaethau i'w cynnwys yn eu cynlluniau gweithredu, gan godi safonau'r addysgu a'r dysgu mewn addysg gorfforol a chynlluniau trosglwyddo statudol eu clwstwr. Mae'r broses hon wedi'i chreu'n arbennig i gynorthwyo gyda'r broses gynllunio mewn Canolfan Ddatblygu gan y cynllun AGChY. Yn hytrach na chymryd lle'r systemau hunanwerthuso presennol, diben y broses hon yw gwella ac ategu'r arfer. Er mwyn paratoi ar gyfer arolwg gan Estyn neu arolwg gan yr awdurdod lleol, dylai ysgolion edrych ar fframwaith arolygu Estyn, sydd i'w weld yng ngwefan Estyn - www.estyn.gsi.uk a chyfarwyddyd yr awdurdod lleol.

Prif amcan y prosiect AGChY yw codi safonau'r addysgu a'r dysgu mewn addysg gorfforol. Mae'r mentrau / adnoddau / cyfleoedd AGChY y tynnir sylw atynt yn y cyfarwyddyd hwn wedi'u creu er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Mae holl fentrau'r cynllun AGChY wedi cael eu datblygu gan ymgynghori â'r prif gyfranddeiliaid ym maes addysg gorfforol: LlCC, Estyn, DCELLS, ymgynghorwyr AG yr awdurdodau lleol, Sefydliadau Addysg Uwch, athrawon a disgyblion. Mae pob cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol y mae'r cynllun AGChY wedi'i ddatblygu wedi'i greu i gydymffurfio â safonau CDP mewn AG a'r Cod Ymarfer. Drwy weithredu'r mentrau hyn, gobeithir y bydd ysgolion nid yn unig yn codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol ond hefyd yn gwneud cynnydd tuag at sicrhau'r arfer dda sy'n cael ei ddatgan gan Estyn a dyfarniad Activmarc Cymru. Dyfernir y nod ansawdd i ysgolion sy'n gallu dangos ymroddiad i ddatblygu AG a Chwaraeon Ysgol o safon uchel i'r plant i gyd.

Pan mae ysgol yn ymroi i wneud cais am Ddyfarniad Activmarc Cymru, mae'n ymroi i broses o hunanwerthuso gan ddatgan cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r ffurflen gais yn cyd-fynd â Fframwaith Estyn, yn seiliedig ar 7 cwestiwn allweddol. Mae'r broses werthuso'n creu cyfoeth o wybodaeth y gellir ei defnyddio'n sail ar gyfer gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Proses hunanwerthuso'r cynllun AGChY a'i gysylltiad â gwaith cynllunio'r ganolfan ddatblygu.

Dylid gweithredu hunanwerthusiad y cynllun AGChY ar y dechrau mewn canolfan ddatblygu newydd ac yna parhau â'r drefn yn flynyddol. Dylai ysgolion y ganolfan ddatblygu gael gwybod am y broses a dylid eu cyflwyno i'r ffurflenni ac i'r nodiadau cyfarwyddyd mewn cyfarfod partneriaeth. Dylai Ymgynghorwyr AG, swyddogion gwella ysgol neu ymgynghorwyr fod yn rhan o'r broses. Unwaith mae ysgolion wedi cynnal eu gwerthusiad unigol eu hunain, bydd y Cydlynydd AGChY ac arweinydd y bartneriaeth fel rheol yn cydweithio i ganfod blaenoriaethau cyffredin ar gyfer gweithredu ar draws y teulu o ysgolion yn y ganolfan ddatblygu. Yna gellid cyflwyno'r rhestr faith hon o flaenoriaethau ger bron y cyfarfod nesaf o'r bartneriaeth ac yno gellid cytuno ar restr fer

o flaenoriaethau / targedau allweddol. Yna defnyddir y blaenoriaethau allweddol hyn i greu cynllun ar gyfer y ganolfan ddatblygu. Os yw ysgolion wedi datgan blaenoriaethau ar gyfer gweithredu nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun datblygu, yna mae'n rhaid i'r ysgolion wneud penderfyniad ynghylch statws y blaenoriaethau hyn yn eu cynlluniau datblygu ysgol eu hunain.

Y cyfarwyddyd

Ar gyfer pob cwestiwn allweddol, mae'r agweddau a ganlyn wedi cael eu cynnwys:-

- Arfer Dda Estyn

Daw'r wybodaeth hon yn uniongyrchol o fframwaith arolygu Estyn ac mae'n datgan yr elfennau fyddai'n cael eu cydnabod mewn arolwg fel nodweddion da.

- Ble gellir cael hyd i dystiolaeth i gefnogi'r hunanwerthusiad.

Mae'r adran hon yn rhestru rhai o'r ffynonellau o dystiolaeth y gellir eu hystyried er mwyn helpu i ddatgan safon y ddarpariaeth. Nid yw'r rhestr hon yn nhrefn blaenoriaeth ac nid yw'n hollgynhwysfawr chwaith. Nid oes raid i ysgolion gael hyd i dystiolaeth o bob ffynhonnell; dim ond canllaw yw'r rhestr ar gyfer ble gellir cael hyd i dystiolaeth.

Cwestiwn Allweddol 1 – Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni?	
Arfer Dda Estyn	**Ble gellir cael hyd i dystiolaeth**
Chwilio am ddysgwyr sy'n: - dysgu gwybodaeth a sgiliau newydd ym mhob un o'r pedwar maes profiad - gwneud cynnydd da yn eu dysgu - cyflawni canlyniadau dysgu - defnyddio a datblygu sgiliau dysgu allweddol - dysgu'n annibynnol - datgan eu cryfderau a gosod targedau ar gyfer gwella - denfyddio gwybodaeth a sgiliau newydd mewn sefyllfaoedd newydd - ymateb yn bositif i wahanol sialensau - gweithio ar eu pen eu hunain, mewn parau ac mewn grwpiau bychain yn effeithiol - cydweithredu - ymateb yn bositif - dangos hyder i ymuno mewn amrywiaeth o weithgareddau - gweithio'n gyfrifol - datrys problemau - meddwl a gwneud penderfyniadau - gosod targedau ar gyfer gwella - llawn diddordeb a chymhelliant - deall beth a ddisgwylir ganddynt - parchu ei gilydd a'r athro - mwynhau dysgu - ymddwyn yn dda - profi llwyddiant - holi cwestiynau perthnasol - defnyddio'r derminoleg briodol - dod â chit priodol gyda hwy'n rheolaidd a chymryd rhan yn frwd a gyda diddordeb - dangos gonestrwydd a thegwch – paratoi ar gyfer a gwybod sut i fyw'n iach ac yn egnïol – mabwysiadu gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau e.e. perfformiwr, gwyliwr, arweinydd – dangos digon o gryfder, cyflymdra, stamina ac ystwythder i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol.	- Arsylwi gwersi - Asesiadau athrawon - Hunanasesiad y disgyblion a'u hasesiad o gyfoedion - Gwrando ar y dysgwyr - Gwerthusiadau'r dysgwyr - Cofnodion am gynnydd a chyflawniadau'r dysgwyr - Clipiau fideo o waith / cyflawniadau'r dysgwyr - Trefniadau trosglwyddo - Gwybodaeth / cofnodion a drosglwyddir i'r athro (athrawon) nesaf - Holiaduron boddhad y dysgwyr - Gwybodaeth yng nghofrestri'r athrawon - Cynllun datblygu ysgol - Cynllun datblygu AG - Adroddiadau arolygon blaenorol

Cwestiwn Allweddol 2 – Pa mor effeithiol yw'r dysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Arfer Dda Estyn	Ble gellir cael hyd i dystiolaeth
Athrawon sy'n: - creu awyrgylch positif a chefnogol - darparu ar gyfer y dysgwyr i gyd - defnyddio arddangosfeydd safonol - sefydlu gweithdrefnau diogel - trefnu'r dysgwyr yn dda - holi'r dysgwyr i gadarnhau eu dysgu a herio eu dealltwriaeth - gosod tasgau priodol - strwythuro'r gwersi'n gyson - rhoi adborth adeiladol yn hybu'r dysgu - gosod targedau ar gyfer gwella - modelau rôl da - ffurfio cysylltiadau â dysgu blaenorol - gosod disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniadau - hybu gwelliannau drwy ymyrryd - defnyddio arfau priodol i helpu'r dysgwyr i weld a gweithio tuag at gyrraedd nod arbennig e.e. arddangosfa Tasgau Cyfoethog (o wefan NGfL) i fodelu arfer dda, defnydd o TGCh - rheoli dosbarthiadau'n effeithiol - parchu'r dysgwyr - defnyddio amrywiaeth o arddulliau dysgu - dangos gwybodaeth dda am y pwnc - gosod cyfyngiadau amser priodol ar gyfer tasgau - pennu disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad - rhannu canlyniadau dysgu gyda'r dysgwyr - adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol - helpu dysgwyr i asesu risg - ffurfio cysylltiadau â meysydd eraill yn y cwricwlwm, y gymuned a byd gwaith - gwrando ar y dysgwyr a darparu dewisiadau'n seiliedig ar eu hawgrymiadau - gosod tasgau sy'n ysgogi ac yn cymell - sefydlu perthnasoedd sy'n glir ac yn deg - cynllunio'r dysgu'n drwyadl gan ffurfio cysylltiadau â maes llafur NCPE neu arholiad - darparu cyfleoedd cyfartal i'r dysgwyr - sicrhau bod darpariaeth yn bodoli ar gyfer y dysgwyr i gyd drwy annog cyfranogiad llawn a llwyddiant – asesu, cofnodi ac adrodd yn ôl am gynnydd – cynnwys dysgwyr yn y gwaith o asesu eu cynnydd eu hunain a gosod eu targedau eu hunain – meithrin sgiliau meddwl y dysgwyr drwy ganolbwyntio ar werthuso a datrys problemau	- Cynlluniau gwaith yn cynnwys cynlluniau gwersi etc, - Arsylwi a gwerthuso gwersi - Trafod gyda'r dysgwyr, yn cynnwys holiaduron boddhad y dysgwyr - Cofnodion asesu, yn cynnwys cofnodion y dysgwyr, clipiau fideo o waith / cyflawniadau'r dysgwyr a phroffiliau'r dysgwyr - CVs yr athrawon - Cofnodion datblygiad proffesiynol - Polisïau perthnasol e.e. asesu ar gyfer dysgu - Cynllun datblygu ysgol - Cynllun datblygu AG - Adroddiadau arolygon blaenorol

Cwestiwn Allweddol 3 – Pa mor dda mae'r profiadau dysgu'n diwallu anghenion a diddordebau'r dysgwyr a'r gymuned yn ehangach?	
Arfer Dda Estyn	**Ble gellir cael hyd i dystiolaeth**
Profiadau dysgu sy'n: - darparu digon o amser i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth hwy eu hunain - diwallu anghenion y dysgwyr i gyd - ddigon eang a chytbwys - adeiladu'n systematig ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau presennol wrth i ddisgyblion symud o flwyddyn i flwyddyn ac o un cyfnod allweddol i'r nesaf - sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau allweddol yn gydlynol - cynnig darpariaeth gyfartal ac ar gael yn deg i'r dysgwyr i gyd - darparu cyfleoedd i ennill dyfarniadau a chymwysterau priodol - hybu cyfleoedd tu allan i oriau, yn cynnwys gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol, gan gyfrannu at y safonau a gyrhaeddir gan y dysgwyr ac at eu datblygiad personol ehangach - gweithio mewn partneriaeth â rhieni, y gymuned ac ysgolion a cholegau eraill - diwallu gofynion Y Cwricwlwm Cymreig - darparu cyfleoedd i ddysgwyr fabwysiadu arferion oes o weithgarwch iach	- Arolygon cwricwlwm - Amserlenni - Cynlluniau gwaith - Proffiliau'r dysgwyr - Gwybodaeth asesu - Dogfennau polisi AG - Polisïau trosglwyddo - Deunydd cyhoeddusrwydd y seremoni wobrwyo - Trafod gyda'r dysgwyr - Amserlen DTAO - Deunydd cyhoeddusrwydd DTAO - Cofrestri presenoldeb DTAO - Trafod gyda darparwyr cymunedol - Pasbort Campau'r Ddraig - Portffolio Campau'r Ddraig o dystiolaeth - Cytundebau gyda darparwyr allanol - Tystiolaeth o weithredu Prifysgol y Plant - Cynllun datblygu ysgol - Cynllun datblygu AG - Adroddiadau arolygon blaenorol

Cwestiwn Allweddol 4 – Pa mor dda y gofelir am y dysgwyr, a'u harwain a'u cefnogi?	
Arfer Dda Estyn	**Ble gellir cael hyd i dystiolaeth**
Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion unigol y dysgwyr yn effeithiol drwy: - dulliau dysgu sy'n cyfateb i anghenion - defnydd da o CCDwyr i gefnogi dysgwyr - cynnwys y rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn y dysgu - defnyddio gweithgareddau priodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol - darparu i ddysgwyr gyfleoedd a defnydd cyfartal o amrywiaeth o brofiadau dysgu - defnyddio adnoddau ac offer priodol - herio'r galluog a'r talentog - asesu anghenion y dysgwyr **Mae'r ysgol yn sicrhau effeithiolrwydd iechyd, diogelwch a lles y dysgwyr mewn AG drwy:** - gwneud trefniadau ar gyfer asesu risg mewn AG - cynnwys dysgwyr mewn gweithgarwch corfforol yn rheolaidd - annog bwyta'n iach yn yr ysgol - meithrin a datblygu lefel uchel o hunanhyder ymhlith y dysgwyr i gyd - defnyddio asiantaethau allanol i hybu gweithgarwch corfforol iach e.e. rhieni, gofalwyr a gweithwyr addysgol proffesiynol eraill - deall effeithiau ymarfer ar y corff yn y byrdymor a'r hirdymor	- Polisïau'r Ysgol – Cyfleoedd Cyfartal, Amddiffyn Plant etc. - Cynlluniau gwaith - Dogfennau Polisi AG - Cofrestri presenoldeb - Proffiliau'r dysgwyr - CAUau - Trafod gyda'r dysgwyr, y rhieni, gofalwyr, gweithwyr meddygol proffesiynol - Trafod gyda CCDwyr - Holiaduron y dysgwyr - Adnoddau ac offer arbenigol - Dogfennau Allweddol Cenedlaethol e.e. bwyd a ffitrwydd, iechyd - Cofnodion gweithgarwch corfforol y disgyblion - Cynllun datblygu ysgol - Cynllun datblygu AG - Adroddiadau arolygon blaenorol

Cwestiwn Allweddol 5 – Pa mor effeithiol yw'r arweiniad a'r rheolaeth strategol?

Arfer Dda Estyn	Ble gellir cael hyd i dystiolaeth
Arweinwyr Pwnc sy'n: - rhoi cyfarwyddyd clir, hybu safonau uchel a phroffil amlwg ar gyfer AG yn yr ysgol - creu ymdeimlad o ddiben sy'n hybu ac yn cynnal gwelliannau - pennu disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawni, sy'n heriol ac yn realistig, mewn partneriaeth â'r staff ac eraill sy'n gweithio gyda hwy - creu a chydlynu tîm gyda gwerthoedd, amcanion a diben cyffredin - annog unigolion i gyfrannu at y diben cyffredin - datblygu'r gallu i adlewyrchu'n feirniadol ar yr hyn sy'n cael ei wneud a sut i'w wella - deall a bod yn ymroddedig i'w rôl - rheoli eu rôl a'u cyfrifoldebau'n effeithiol - ystyried blaenoriaethau cenedlaethol - rheoli a gwella perfformiad staff unigol, timau a, lle bo hynny'n briodol, adrannau - datgan gweithdrefnau priodol ar gyfer targedu staff datblygu a fydd yn cael effaith bositif ar safonau'r addysgu a'r dysgu	- Dogfennau hunanwerthuso'r ysgol a'r cynlluniau gweithredu - Datganiad o fwriad / prosbectws yr ysgol - Cynlluniau gwaith - Amserlenni - Dogfennau polisi AG - Trafod gyda'r dysgwyr, yn cynnwys holiaduron y dysgwyr, y staff, yr uwch-dîm rheoli, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr - Adnoddau ac offer y pen / neilltuad yn cynnwys staffio a gofod - Pwyntiau cyfrifoldeb addysgu a dysgu - Cofnodion a gweithdrefnau datblygiad proffesiynol - Hysbysfyrddau'r ysgol - Cylchlythyr yr ysgol - Cynllun datblygu ysgol - Cynllun datblygu AG - Adroddiadau arolygon blaenorol

Cwestiwn Allweddol 6 – Sut mae arweinwyr a rheolwyr yn gwerthuso ac yn gwella ansawdd a safonau?

Arfer Dda Estyn	Ble gellir cael hyd i dystiolaeth
Arweinwyr Pwnc sy'n:	- Cynlluniau datblygu ysgol

- wybodus iawn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol - sefydlu trefniadau monitro a hunanwerthuso sy'n hollgynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol - ceisio ac yn ystyried barn y dysgwyr, y staff ac eraill sydd â diddordeb - cynnwys yn llawn y rhai sy'n ymwneud â chyflwyno a chefnogi AG yn y broses hunanwerthuso - datgan blaenoriaethau a gweithredoedd clir er mwyn esgor ar welliant - ceisio cyllid digonol i sicrhau bod modd cyflawni'r blaenoriaethau - darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y gweithredoedd wedi arwain at y gwelliannau dymunol a mesuradwy	- Cynlluniau datblygu adrannau - Dogfennau hunanwerthuso - Adroddiadau arolygon - Adroddiadau'r awdurdod lleol - Agendâu a chofnodion cyfarfodydd y staff, cyfarfodydd y CDd - Polisïau a hunanwerthusiadau'r ysgol a'r adran - Holiaduron y dysgwyr - Cofnodion asesu - Trafod gyda'r dysgwyr, y staff, yr uwch-dîm rheoli, rhieni, llywodraethwyr

Cwestiwn Allweddol 7 – Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Arfer Dda Estyn	Ble gellir cael hyd i dystiolaeth
Staff sy'n: - cyflwyno ac yn cefnogi AG gyda'r cymwysterau a'r profiad priodol - sicrhau bod y dysgwyr i gyd yn gallu gwneud defnydd o adnoddau dysgu priodol sy'n cyfateb i ofynion eu profiadau dysgu - darparu amgylchedd addas a diogel ar gyfer addysgu a dysgu da, a chefnogaeth i'r dysgwyr i gyd - rheoli ac yn datblygu'n effeithiol yr holl staff sy'n cyflwyno ac yn cefnogi AG - cyfateb adnoddau i'r blaenoriaethau sydd wedi'u datgan ar gyfer datblygu - adolygu'r defnydd o adnoddau'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian - cynnal asesiad risg rheolaidd yn yr holl feysydd dysgu ac yn yr amrediad llawn o weithgareddau dysgu - defnyddio OAWAion i ymestyn y profiadau dysgu yn y cynllun AGChY y tu hwnt i'r diwrnod ysgol	- Polisïau a gweithdrefnau ysgol - Amserlenni - Cofnodion CPD - Cyllideb CPD - Nodiadau o werthusiad perfformiad - Polisïau cynnwys - Trafod gyda dysgwyr, staff, rhieni a gofalwyr - Cynlluniau gwaith - Adnoddau ac offer arbenigol - Rhestr o offer - Yr amgylchedd dysgu - Cynllun datblygu ysgol - Cynllun datblygu AG - Adroddiadau arolygon blaenorol